OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 721 (Cy. 140)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# GWASTRAFF, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Mehefin 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *14 Mehefin 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Gorffennaf 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas ag—

(a) mesurau ynghylch atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli pecynnu a gwastraff pecynnu(**3**);

(b) atal, lleihau a rheoli gwastraff(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw neu at y diben hwnnw.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**3**) O.S. 2005/850.

(**4**) O.S. 2010/1552.